



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam**

**Adroddiad Ôl Ymgynghori**

**Cynnig i gynyddu capasiti disgyblion yn**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas, Wreccsam**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas**

**Lôn Barcas**

**Wreccsam**

**LL13 9TP**

	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Cyhoeddi'r Ymgynghoriad	3
3. Cyfarfodydd Ymgynghori	5
4. Ymgynghori â phlant	6
5. Adborth o'r ymgynghoriad	9
6. Adborth Rhieni/Llywodraethwyr a'r Gymuned	10
7. Adborth ESTYN	18
8. Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol	20

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cwblhau cyfnod ymgynghori yn ddiweddar mewn perthynas â'r cynnig i wneud cynnydd mewn capasiti yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar **18 Hydref 2018** a daeth i ben ar **12 Rhagfyr 2018**.

Mae'r ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i God Trefniadaeth Ysgolion 2013 gael ei ddefnyddio ac i roi arweiniad i gyrrff perthnasol (Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu).

Bydd y ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, yn cyfeirio at y canfyddiadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad a bydd yn anelu at ateb a mynd i'r afael â'r cwestiynau sydd wedi'u rhoi i'r Awdurdod.

## 2. Cyhoeddi'r Ymgynghoriad

Dechreuodd yr ymgynghoriad gyda'r cyhoeddiad dwyieithog o'r Ddogfen Ymgynghori ar 18 Hydref 2018 ar wefan y Cyngor. Anfonwyd dolenni i'r dogfennau i'r rhestr lawn o'r ymgynghoreion. Mae'r manylion isod yn nodi'r rhestr o dderbynwyr, fel yr arweiniwyd gan God Trefniadaeth yr Ysgol (2013), a gafodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, neu y cafodd eu cyfeirio ati.

## **Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw**

- Yr awdurdod cynnal arfaethedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Bwrdd Gweithredol).
- Awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys awdurdodau cyfagos Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych.
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas
- Ysgolion Wrecsam.
- Rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas.
- Gweinidogion Cymru.
- Aelodau Cynulliad.
- Aelodau Seneddol.
- Estyn.
- Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas.
- GwE.
- Yr Eglwys yng Nghymru / Esgobaeth
- Adran Drafnidiaeth Cyngor Wrecsam.
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Cynghorau Cymuned Canol y Dref.
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Gwahoddwyd ymgynghoreion i ymateb i'r ymgynghoriad drwy lenwi'r ffurflen ymgynghori a ddarparwyd, drwy anfon e-bost at gyfeiriad e-bost dynodedig neu ysgrifennu at yr Adran Addysg. Dylid cyflwyno ymatebion yn electronig neu mewn fformat copi caled.

Nid yw'r rhestr a ddarperir uchod yn gyflawn. Mae'r Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Adran 48) yn gofyn bod yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori â'r fath bobl sydd yn ymddangos iddynt i fod yn briodol cyn ystyried cyhoeddi unrhyw gynigion.

### 3. Cyfarfodydd Ymgynghori

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cyflawnwyd ymgyrch gyfathrebu i annog ymgysylltiad cyhoeddus. Cynhaliwyd nifer o sesiynau galw heibio gan Swyddogion Addysg yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas. Roedd rhieni a phartion â diddordeb yn gallu mynychu'r sesiynau.

Lleoliad	Rhanddeiliad	Dyddiad	Nifer yr Ymgynghoreion a fynychwyd
Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas	Rhieni a Chymuned	25 Hydref 2018 8:45am – 9:30am	3
Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas	Rhieni a Chymuned	25 Hydref 2018 3:00pm – 4:00pm	6
Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas	Rhieni a Chymuned	7 Hydref 2018 5:00pm - 6:00pm	19

Cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas lle bu i Swyddogion Yr Awdurdodau Lleol gyfarfod â'r Corff Llywodraethu yr ysgol a staff.

Lleoliad	Rhanddeiliad	Dyddiad	Nifer yr Ymgynghoreion
Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas	Staff Ysgol Gymunedol Lôn Barcas	9 Hydref 2018	Holl staff
Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas	Corff Llywodraethu	9 Hydref 2018	Corff Llywodraethu Llawn

--	--	--	--

Cynghorwyd yr holl bobl a oedd yn bresennol yn y gwahanol sesiynau galw heibio i roi adborth ar yr ymgynghoriad. Eglurwyd bod nifer o ffyrdd y gellir cyfathrebu fel hyn. Ynglwm a'r ddogfen ymgynghori roedd profforma. Roedd modd ei llenwi a'i dychwelyd atom yn y cyfeiriad a nodwyd. Roedd modd cysylltu drwy e-bost neu lythyr hefyd.

Hefyd dywedwyd nad oedd unrhyw ymatebion y cam hwn yn cael eu trîn fel gwrthwynebiadau.

#### **4. Ymgynghori â phlant**

Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori fel fersiwn dwyieithog i blant ar wefan Cyngor Wrecsam ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori llawn.

Yn ystod yr ymgynghoriad, bu i'r Swyddogion Yr Awdurdodau Lleol gyfarfod â'r Cyngor Yr Ysgol i drafod y cynigion.

<b>Ysgol</b>	<b>Rhanddeiliad</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Nifer yr Ymgynghoreion</b>
Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas	Cyngor Ysgol	24 Hydref 2018	10

Yn ystod y cyfarfodydd cyngor yr ysgol, gofynnwyd i'r plant os oeddent wedi gweld copi o'r ddogfen ymgynghori plant, ac eglurodd y swyddogion am beth oedd yr ymgynghoriad yn sôn amdano. Cafodd y plant eu hannog i ofyn unrhyw gwestiynau a rhannu syniadau yr oedd ganddynt.

Cofnodwyd yr adborth canlynol ar y diwrnod, a hefyd gofynnwyd i'r plant anfon eu syniadau a safbwyntiau i Gyngor Wreccsam drwy gydlynwyr yr ysgol. Dylid nodi bod Cyngor Yr Ysgol wedi cyflwyno ymateb ffurfiol.

### **Adborth gan Gynghorau'r Ysgol:**

#### **Cyngor Ysgol – Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas – 24 Hydref 2018**

10 plentyn o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6

Cwestiynau Cychwynnol:

- Allwch chi edrych ar barcio i staff? Mae arnynt angen mwy o le i barcio.
- Os oes rhagor o blant, bydd angen rhagor o lefydd parcio (rhieni) os bydd tua 20 o geir eraill yn dod, gan ei fod eisoes yn brysur.

Eglurodd y Pennaeth bod rhywun am ddod i edrych ar y traffig a cheir, a pha mor sydyn y maent yn symud, ar ôl gwyliau'r hanner tymor, felly mae hyn yn cael ei edrych arno.

- Amseroedd chwarae – rydym angen ymestyn y cae a'r iard fel y gallwn dal gael amser chwarae.
- Efallai bydd arnom angen rhagor o iPads a gliniaduron fel ei fod yn deg ac nad oes llai o bethau i ni. Dim ond 15 iPad sydd gennym rhwng dau ddosbarth a ni fyddai'n deg cael mwy o blant a dim mwy o iPads.
- Rwy'n credu y dylem gael rhagor o Gemau Olympaidd ar y cae pan fyddwn yn cael gwersi Ymarfer Corff. Mae gennym dwll tywod ac yn gallu gwneud naid hir, ond rydym angen rhagor o gemau Olympaidd yna.
- Rydym angen rhagor o bopeth os bydd mwy o blant yn dod yma.

Roedd yr holl blant yn credu y byddai'n syniad da i gael rhagor o blant i ddod i'r ysgol. Roedd rhaid i un ferch fach symud yn agosach i'r ysgol er mwyn cael lle yn y dosbarth derbyn. Ni chafodd le yn y dosbarth meithrin gan nad oedd yn byw ddigon agos. Roedd yn credu y byddai'n syniad da gadael i ragor o blant. Roedd gan blentyn arall gefnder/cyfnither mewn blwyddyn arall a rhai gyda brodyr neu chwirydd iau.

- Gawn ni neuadd fwy i gael ein cinio?
- Petaent yn gwithio'r byrddau at ei gilydd, efallai gallwn roi rhagor o fyrddau yna.
- Dywedodd un plentyn ei bod yn cael estyniad ar eu tŷ ac yn gwybod beth oeddem yn ei wneud.
- Cawn ofyn i rywun dorri'r gwair ar y cae? Rydym angen rhywun i'w dorri yn awr.
- Rydym angen mwy o bethau i wneud ar yr iard gan fod amseroedd casglu yn wahanol ac mae'r rhai iau angen rhywbeth i'w wneud.

Mae arnom angen...

Mwy o lefydd i ddod i mewn i'r ysgol fel bod llai o bobl yn dod i un giât.

Offer Addysg Gorfforol

Cyfarpar Ysgrifennu

Mwy o lyfrau, does dim digon yn awr ar gyfer y plant sydd yma.

Mwy o fyrddau a chadeiriau.



## 5. Adborth o'r Ymgynghoriad

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam **27 ymateb** i'r ddogfen ymgynghori.

Mae'r tabl isod yn dangos fformat yr ymateb a ddefnyddiwyd gan fudd-ddeiliaid.

<b>Fformat yr Ymateb</b>	<b>Nifer yr Ymatebion a Dderbyniwyd</b>
E-bost/llythyr	27
<b>Cyfanswm a Dderbyniwyd</b>	<b>27</b>

Cafwyd ymatebion gan y rhanddeiliaid canlynol:


Rhieni/ Darpar Rieni	2
Preswylwyr	15
Cyngor Ysgol	1 (cyfanswm o 10 o blant)
Corff Llywodraethu	1
Cynghorwyr	1
Cyngor Cymuned	1
Estyn	1
Aelod Seneddol	1
Undeb Addysgu NASUWT	1
Anhysbys	3

Mae'r holl ymatebion a ddaeth i law yn hygyrch i'r Cynghorwyr eu gweld yn llawn.

## 6. Adborth Rhieni/Llywodraethwyr a'r Gymuned

Ceir crynodeb o'r adborth yn sgil yr ymgynghoriad isod:-

Ymatebion cadarnhaol	5
Ymatebion Negyddol	3
Ymatebion Niwtral *	19



\*Ymgynghoreion heb wrthwynebu'r cynnig i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas, yn hytrach maent wedi codi pryderon sydd yn cael eu hymdrin o fewn yr adroddiad hwn.

Mae themâu o'r ymatebion wedi cael eu casglu a'u dadansoddi fel a ganlyn:

Thema	Sawl gwaith y cododd
Traffig/ Parcio	19
Pwysau ar Staff Addysgu/ mwy o blant yn y dosbarth	2
Lefel sŵn Clwb ar ôl ysgol	1

Thema	Ymateb Awdurdod Lleol
<p><b>Traffig/ Parcio</b></p> <p>Pob diwrnod ysgol mae Lôn Barcas yn debyg i gwrs rhwystr i breswylwyr. Mae un ochr o'r Lôn gyda cheir wedi parcio o un pen i'r llall drwy'r dydd. Preswylwyr</p> <p>'Gyda'r bwriad i gynyddu nifer y plant o 50% (cyfateb â chant o blant), byddai'n golygu 50% y nifer o gerbydau sydd yn cyrraedd yr un amser, a byddai'n cynyddu'r problemau, a dod â'r ardal sydd eisoes yn brysur i stop gyfan gwbl' Preswilydd</p>	<p>Mae'r ceir sydd yn parcio ' drwy'r dydd' yn debygol o fod yn staff gan nad oes maes parcio ar gyfer y staff ar y safle. Fel rhan o'r datblygiad, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cyflwyno maes parcio ar y safle i sicrhau digon o lefydd parcio i'r holl staff. Bydd hyn yn rhyddhau gofodau parcio tu allan i eiddo'r ysgol i rieni ollwng neu gasglu eu plant.</p> <p>Cyflawnwyd arolwg traffig fel rhan o'r datblygiad gydag argymhellion pellach a fydd yn cael eu hystyried, rhai sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Lleol ac yn berthnasol i ymddygiad gyrwyr.</p>

### **Arolwg Cludiant**

Mae arolwg wedi cael ei anfon gartref at holl rieni cyfredol Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas, yr Awdurdod Lleol sydd yn cyflawni'r arolwg hwn i gefnogi datblygiad safle drwy gasglu gymaint o wybodaeth â phosibl i randdeilaid.

### **Parcio**

Cydnabyddir bod problemau parcio ar adegau gollwng a chasglu plant ym mhob ysgol o fewn y Fwrdeistref Sir. Fodd bynnag, mae cynigion newydd wedi ystyried bod hyn yn broblem ac yn bwriadu lliniaru'r effaith.

Petai'r cynnig hwn yn mynd ymlaen, bwriedir y byddai cynllun yn cael ei gyflwyno am ganiatâd cynllunio amlinellol a dylai swyddogion ymgynghori â'r awdurdod cynllunio i sicrhau bod datrysiad addas yn cael ei ddatblygu er mwyn lleihau unrhyw effaith a achosir.

Mae astudiaethau dichonolrwydd cychwynnol wedi'u cyflawni gan y swyddogion addysg a phenseiri, a bydd y mesurau lliniaru canlynol yn cael eu hystyried.

- Cyflwyno gofodau parcio ar y safle.

Ni fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei gymeradwyo heb sicrhau bod yr holl swyddogion perthnasol megis Priffyrdd yn

	fodlon bod y dyluniad gyda lliniariadau yn briodol a digonol i ganiatáu'r prosiect barhau.
<p><b>Maint dosbarthiadau</b></p> <p>'Mae'r pwysau ar yr athrawon a disgyblion ar hyn o bryd, a'r cynlluniau bwriadedig y cyngor i adeiladu mwy o dai yn ac o amgylch Wreccsam yn ddigon o ysgogiad dim pleidlais am fwy o blant mewn dosbarthiadau, dylai'r cynlluniau gynnwys adeiladu mwy o ysgolion... nid oes unrhyw adnoddau, 'na na na' i ddosbarthiadau mwy' ymatebydd</p>	<p>Nid oes bwriad i gael dosbarthiadau gyda mwy na 30 o ddisgyblion yn unol â Rheoliadau Maint Dosbarth Cyfnod Sylfaen. Bwriad y datblygiad yw lleihau meintiau dosbarth drwy Lôn Barcas ac ysgolion eraill canol tref.</p> <p>Mae Wreccsam wedi ystyried yn ofalus cynnydd araf yn yr ysgol i sicrhau digon o amser i gynllunio ar gyfer cohort sydd ar gyrraedd.</p> <p>Mae'r penderfyniad ar strwythur dosbarth yn parhau yn benderfyniad i'r Ysgol a'r Corff Llywodraethu.</p>
<p><b>Clwb ar ôl Ysgol</b></p> <p>'fel mae'r nifer y disgyblion yn cynyddu byd mwy eisiau defnyddio'r clwb ar ôl ysgol er ei fod wedi cyrraedd ei gapasiti llawn yn awr, a hefyd bydd cynnydd yn y nifer yn y clwb ar ôl ysgol yn cynyddu lefel y sŵn.' Cyng.</p>	<p>Nid yw'r cynnig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer clwb ar ôl ysgol. Byddai'r penderfyniad i ymestyn y ddarpariaeth yn cael ei wneud gan y Corff Llywodraethu neu'r darparwr lleol.</p>

Roedd nifer o gwestiynau a sylwadau a ddaeth i law **nad oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad cyfredol** ar gynyddu capasiti yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas.

Thema	Sawl gwaith y cododd
-------	----------------------

Ardal Tarmac Coch	2
Gwaith Adeiladu: Pryder ynghylch cynlluniau drafft/ Gwrthwynebu i Fynediad Maes Parcio	8
Gwaith Adeiladu: Pryder ynghylch cynlluniau drafft/ Lleoliad Llecyn Gemau Amldeffnydd	2
Gwaith Adeiladu: Cael gwared â Chlawdd sydd fel terfyn	2
Amgylchedd/ Sbwriel	2
Cynllun Cyflenwi Lleol/ Datblygiadau Tai	3
Addewid Chwarae	1

Thema	Ymateb Awdurdod Lleol
<p><b>Ardal Tarmac Coch</b></p> <p>Mae'r tarmac coch sydd ar gornel Lisburne Grove/ Chelston Avenue angen ei atgyweirio, oherwydd bod rhieni yn parcio yna pan maent yn gollwng/ casglu eu plant o'r ysgol. Ni ddylent fod yn parcio yna. Os yw'r cynnig yn mynd ymlaen, bydd mwy o gerbydau yn parcio ar y tarmac coch ac yn rhwystro tramwyfeydd preswylwyr. Byddwn yn gwerthfawrogi petai hyn yn cael ei ystyried o fewn y cynlluniau fel na all rieni barcio ar y tarmac coch'. Cyng.</p>	<p>Gallwn gadarnhau mai nid yr Awdurdod Lleol nac Adran Priffyrdd sydd yn berchen ar ardal 'tarmac coch' sydd ar gornel Lisburne Grove/Chelston Avenue. Felly nid allwn ystyried yr ardal hon fel rhan o'r datblygiad.</p>
<b>Gwaith Adeiladu</b>	

<p>Lleoliad maes parcio Cael gwared â Chlawdd sydd fel terfyn Lleoliad Llecyn Gemau Amldeffnydd</p> <p>'Fel bod athrawon a staff yn cael mynediad at y maes parcio ac i gerbydau gwasanaethau gael mynediad at yr ysgol, bydd rhaid iddynt ddefnyddio Lisburne Grove, fel y nodir mae hwn yn ffordd bengaead cul ac yn hollol anaddas ar gyfer y pwrpas a bydd yn dod â mwy o broblemau i ardal sydd yn brysur ofnadwy a rhwystro o bosib. Preswlydd</p> <p>'Rydym hefyd yn bryderus ynghylch lleoliad Llecyn Gemau Amldeffnydd. Mae gyferbyn â rhif 16 Lisburne Grove, a fydd yn gweld hwn bob tro maent yn agor y drws ffyrnt neu'n edrych drwy'r ffenestr. Mae hefyd llawer rhy agos at rifau 18 i 24 a rhif 14. Mae gan yr ysgol tir o faint mawr a dylai fod yn syml i ail-leoli Llecyn Gemau Amldeffnydd fel nad yw'n achosi unrhyw broblemau ar gyfer unrhyw un o'r preswylwyr'. Preswlydd</p>	<p>Roedd cynlluniau safle mynegol a oedd ar gael yn y sesiynau galw heibio yn dangos y gallai'r safle gymhwyso cynnydd mewn nifer y disgyblion sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig. Gwnaethpwyd yn glir iawn nad dim y dyluniad neu gynllun terfynol oedd hwn ac nid oedd wedi bwriadu cael ei dderbyn fel hyn.</p> <p>Bydd penderfyniadau ar unrhyw waith dylunio ond yn cael eu gwneud os byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ar ôl y cyfnod Hysbysiad Statudol. Byddai'r cynlluniau yn destun y broses cynllunio, felly gan ddarparu cyfle i'r partïon â diddordeb i gefnogi neu herio'r cynigion ar y cam hwn.</p>
<p><b>Amgylchedd/ Sbwriel</b></p> <p>'Mae'r mwyafrif o rieni yn dod â'u cerbydau i'r ysgol yn y prynhawn i gasglu eu plant, ac mae pawb eisiau bod mor agos â phosib i giatiau'r ysgol, pan mae'r plant yn dod allan, mae'r llygredd aer o ganlyniad i allyriadau pibell wacau o gerbydau'r rhieni ar ei uchaf bydd y sefyllfa yn gwaethygu pan fydd allyriadau pibellau gwacau o 50 cerbyd arall yn cael ei ychwanegu at y sefyllfa.</p> <p>Hefyd o ran problemau amgylcheddol, mae tuedd cynyddol yn ymddangos o bobl yn gadael eu sbwriel ar y ffyrdd a llwybrau sy'n agos i'r ysgol, gallai hyn gynyddu fel mae'r niferoedd sy'n dod i'r ysgol yn cynyddu, hoffwn ofyn i'r cyngor roi cynllun glanhau ffyrdd a</p>	<p>Mae'r rhain yn bryderon sydd y tu hwnt i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn, ond mae'r sylwadau/ ceisiadau wedi cael eu pasio ymlaen i'r adran berthnasol iddynt eu hystyried.</p>

<p>Ilwybrau effeithiol mewn lle, gan nad oes gennym un ar hyn o bryd'. Preswlydd</p>	
<p><b>Cynllun Cyflenwi Lleol/ Datblygiadau Tai</b>  'Rwyf wedi cael sylwadau gan breswylwyr sydd yn pryderu ynghylch cynlluniau ar gyfer y tai newydd yn Dean Road, Cefn Road a Holt Road. Mae preswylwyr yn bryderus iawn ynghylch y pwysau ychwanegol ar ysgolion a ffyrdd yn y rhan hon o Wrecsam, o ganlyniad i'r holl dai newydd. Os yw plant o'r ardaloedd hyn yn ceisio cael mynediad at Lôn Barcas, gallai hyn arwain at gynnydd mewn traffig. Hefyd gallai ddefnyddio'r llefydd ychwanegol a grëwyd yn wreiddiol gyda'r bwriad i leihau meintiau dosbarth. Rwy'n credu bod y Cyngor angen ystyried yr ochr hwn i gyd yn Wrecsam yn ei gynlluniau'. Aelod Seneddol</p>	<p>Mae datblygiadau tai yn y dyfodol y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn, fodd bynnag gallwn gadarnhau bod yr Adran Addysg yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gynllunio i sicrhau bod cyfleusterau addysg ddigonol i fodloni'r galw yn y dyfodol. Petai safleoedd strategol yn cael eu datblygu, y disgwyliad yw y byddai'r disgyblion sy'n dod o'r datblygiadau hynny yn cael mynediad at ysgol ar y safle, a fyddai'n lleihau'r pwysau traffig ar draws canol y dref.</p>
<p><b>Addewid Chwarae</b>  'Mae'r Cyngor Cymuned yn argymhell i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth gyflawni ei Addewid Chwarae ac fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'n rhoi ystyriaeth i alluogi "Mynediad Agored" i dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol i sicrhau man chwarae diogel i blant sy'n byw yn Ward Parc Borrás, ac i alluogi gwell mynediad i blant i barth cyhoeddus.' Cyngor Cymuned</p>	<p>Mae'r cais hwn y tu hwnt i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn, ond mae'r sylw/ cais wedi'i basio i'r Ysgol i'w ystyried.</p>

Dylid nodi y gwnaethpwyd nifer o **sylwadau cadarnhaol**, mae enghreifftiau ohonynt wedi'u cynnwys isod:-

--



'mae'r cynnydd i 45 yn lleoedd dosbarth meithrin a derbyn yn arwain at leihad cyffredinol mewn meintiau dosbarth a allai ond bod yn fuddiol ar gyfer addysg plentyn.'

'ein hunig amheuaeth am Lôn Barcas hyd yma oedd yn y mynediad dosbarth sengl gan bod ein merch yn gymdeithasol iawn a byddai'n manteisio o grŵp ehangach a byddai hyn yn y pen draw yn ei pharatoi yn well ar gyfer yr ysgol uwchradd'.

'Mae'r cynnydd arfaethedig yn debygol o leihau'r straen posibl o gael eich gwrthod o'ch dewis cyntaf o ysgol feithrin, rhywbeth mae eraill wedi siarad amdano yn flaenorol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cynnydd o ran galw am lefydd o'r fath ac rwy'n canmol yr ysgol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am gynllunio i fynd i'r afael â'r cynnydd arfaethedig hwn' Rhiant/ Rhieni arfaethedig

### I grynhoi

Roedd y mwyafrif, 19 o'r 27 sylwad a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, **18 Hydref 2018 tan 12 Rhagfyr 2018**, yn niwtral i'r cynnig, ddim yn gwrthwynebu'n weithredol ond yn hytrach yn codi pryderon yr ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn yr adroddiad hwn. Roedd 5 sylwad arall yn cefnogi'r cynigion.

## **7. Adborth ESTYN**

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas o 210 i 315 o 31 Awst 2020 ymlaen**

### **Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

Dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i God cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff sydd angen gweithredu yn unol â'r Cod a nid yw'r Ddeddf yn gosod gofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth yr ysgol. Felly fel corff sy'n cael ei ymgynghori, bydd Estyn yn darparu barn yn unig ar deilyngdod cyffredinol cynigion trefniadaeth yr ysgol.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgiadol y cynnig ac wedi cynhyrchu'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd, a gwybodaeth ychwanegol arall megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Regional Consortia sydd yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgol o fewn y cynnig.

Mae'r cynnig ymgynghori hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Y cynnig yw cynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas o 210 i 315 o 31 Awst 2020 ymlaen.

### **Crynodeb / Casgliad**

**Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal y safonau presennol o addysg yn yr ardal.**

## **Disgrifiad a Manteision:**

Mae'r cynnig yn nodi'n glir yr angen am lefydd ychwanegol i ddisgyblion a dosbarth meithrin sydd yn codi o'r twf mewn galw am leoliadau disgyblion ar draws pedair ysgol ar ddeg yn ardal canol tref Wrecsam. Mae'r cynnig yn egluro sut mae'r galw am lefydd disgyblion yn golygu nad yw holl rieni yn gallu cael lle i'w plant yn y dewis cyntaf o ysgol.

Mae'r cynnig yn gosod yn glir asesiad yr awdurdod lleol o'r capasiti cyfredol i ymestyn ym mhob ysgol gynradd yn canol y dref. Dengys y data bod nifer o ysgolion wedi cyrraedd neu bron â chyrraedd eu capasiti llawn. Gan fod gan Lôn Barcas y capasiti i gynyddu maint ei adeilad er mwyn cynyddu niferoedd y disgyblion, mae'n addas i'r awdurdod lleol awgrymu hon fel safle da i ymestyn. Drwy greu gwagle ychwanegol yn yr ysgol, mae'r awdurdod lleol yn disgwyl y bydd ysgolion eraill yng nghanol y dref yn manteisio o ledaeniad cyfartal o ddisgyblion, gan leihau'r niferoedd ym mhob dosbarth i fod o dan 30 o ddisgyblion.

Mae'r cynnig yn ystyried yn briodol y manteision ac anfanteision sydd yn gysylltiedig ag estyniad o'r ysgol a'r goblygiadau i ysgolion lleol eraill. Bydd cynyddu safle Ysgol Lôn Barcas i dderbyn y galw ychwanegol yn lliniaru'r angen i ddefnyddio cabannau dros dro ac yn osgoi'r gorlenwi mewn safleoedd amgen eraill. Mae'r casgliadau sef bydd y llefydd ychwanegol yn lleihau pwysau ar ysgolion eraill a galluogi mwy o rieni i gael mynediad i Lôn Barcas, yn gyson gyda'r manylion yn y cynnig.

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith ar niferoedd disgyblion cyfrwng Cymraeg, ac addysg cyfrwng Cymraeg. Adnabyddir yr angen i gynyddu capasiti o fewn y sector cyfrwng Cymraeg yn y cynnig hwn, ac mae strategaeth i fodloni'r anghenion hynny wedi gosod mewn dogfen arall.

Mae'r cynnig yn awgrymu yn rhesymol y bydd effaith niweidiol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, yn hytrach bydd yr effaith yn fanteisiol gan y bydd mwy o ddisgyblion yn cael mynediad i'w lleoedd ysgolion agosaf.

Hefyd mae'n annhebygol y bydd effaith niweidiol ar ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig (SEN). Mae'r trefniadau awdurdod lleol cyfredol i ddisgyblion o'r fath yn berthnasol yn awtomatig.

Mae'r cynnig yn nodi'r effaith yr estyniad yr ysgol ar lefelau staffio, ac yn awgrymu y delir â hyn pan fydd angen fel mae'r niferoedd yn cynyddu. Gallai'r cynnig gael ei gryfhau drwy nodi meincnodau niferoedd a alla'i sbarduno'r angen am staff ychwanegol, a'r goblygiadau ariannol a sut mae'r rhain yn cael eu gosod yn erbyn gan gyllid cynyddol i ddisgyblion, gan nad yw hyn wedi'i nodi.

## **Agweddau Addysgiadol o'r cynnig**

Mae'r cynnig yn gosod yn glir sut bydd yr ysgol yn cynyddu niferoedd bob blwyddyn, drwy gynyddu'r nifer o lefydd yn y dosbarth meithrin a chyfnod sylfaen yn y flwyddyn gyntaf. Bydd y cynnydd yn y niferoedd yn bwydo drwy'r ysgol drwy broses cynyddol blynyddol o 2020 ymlaen, gan arwain at estyniad graddol i'r ysgol dros y blynyddol dilynol. Ni ddylai hyn gyflwyno risg i'r ysgol a'i darpariaeth o ran addysg.

Mae'r cynnig yn ystyried yr effaith tebygol yr ysgol newydd ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth gan y Regional Consortium wrth gategoreiddio'r ysgol. Bu i'r arolygiad mwyaf diweddar o'r ysgol gan Estyn yn 2016, werthuso'r perfformiad cyfredol yr ysgol i fod yn 'Dda', gyda rhagolygon yr ysgol i wella yn: Dda.' Mae'r consortiwm lleol yn categoreiddio'r ysgol yn wyrdd sydd yn 'Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, ag arweinyddiaeth gref ac yn glir o ran ei blaenoriaethau ar gyfer gwella.'

Mae'r awdurdod lleol wedi categoreiddio'r stoc adeilad fel 'Gradd A' sydd yn golygu bod ansawdd yr adeiladau yn 'dda', ac yn 'perfformio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon'. Mae'r wybodaeth hon yn cefnogi'r cais rhesymol y cynigydd y dylai Lôn Barcas allu 'cynnal a pharhau i wella'r safon ac ansawdd cyfredol o addysg o fewn yr ardal'

## **8. Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol**

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyfarfod ar **12 Mawrth 2019** i drafod yr ymgynghoriad ar gyfer y cynnydd parhaol mewn capasiti yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas.

Gofynnir i'r Bwrdd Gweithredol am gymeradwyaeth i symud ymlaen i **Hysbysiad Statudol** ar gyfer penderfynu cynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas. Mae hyn yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod lle mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ysgrifenedig. Yn dilyn hyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn dychwelyd i'r Bwrdd Gweithredol i wneud y penderfyniad terfynol.